# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mawrth 2021

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae’r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 COVID-19: iechyd meddwl ac iechyd corfforol

(09.15 - 10.45) (Tudalennau 1 - 10)

Yr Athro Ann John, Athro Iechyd y Cyhoedd a Seiciatreg yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe a Chadeirydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio

Yr Athro Alka Ahuja, Seiciatrydd Ymgynghorol Plant a’r Glasoed, ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC Cymru), ac Arweinydd Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru

Yr Athro Adrian Edwards, Athro Ymarfer Cyffredinol ym Mhrifysgol Caerdydd, a Chyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth newydd Cymru ar gyfer COVID-19, Cyfarwyddwr Canolfan PRIME Cymru (canolfan Cymru gyfan ar gyfer ymchwil gofal sylfaenol a gofal brys) a meddyg teulu rhan amser

Dr David Tuthill, Pediatregydd Ymgynghorol a Swyddog Cymru yng Ngholeg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(10.45)

**3.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch atgyfeiriadau diogelu a phlant sy'n derbyn gofal**

(Tudalennau 11 - 14)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 1

**3.2 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn dychwelyd i addysg**

(Tudalennau 15 - 16)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 2

**3.3 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch adolygiad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau: Addysg yn y cartref ac ysgolion annibynnol**

(Tudalennau 17 - 18)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 3

**3.4 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran un o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**

(Tudalennau 19 - 63)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 4

**3.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg ynghylch gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

(Tudalennau 64 - 65)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 5

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.45)

## 5 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(10.45 - 11.00)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

**CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 1**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

SeneddCYPE@senedd.cymru

24 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer yr atgyfeiriadau diogelu plant, a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 21 Ionawr.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol roi data wythnosol inni ynglŷn ag agweddau allweddol ar y ddarpariaeth o wasanaethau. Roedd y data'n cynnwys niferoedd ar gyfer atgyfeiriadau diogelu a'r plant sy'n derbyn gofal. Oherwydd COVID-19, mae'r data'n cael eu cynhyrchu'n gyflym, ac fe'u defnyddir at ddibenion monitro mewnol yn unig. Nid ydynt wedi cael eu dilysu ar gyfer eu cyhoeddi.


Er nad yw data am gysylltiadau diogelu yn cael eu casglu fel arfer, gallaf ddweud o ran y cysylltiadau hyn, bod yr awdurdodau wedi adrodd bod y gyfradd ar gyfer cysylltiadau â Gwasanaethau Plant wedi codi a gostwng dros amser, yn yr un modd â'r gyfradd ar gyfer cysylltiadau diogelu â'r Gwasanaethau. Mae'r graff isod yn rhoi manylion am y newid, yn ôl y gyfradd (fesul 10,000), yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 13.05.20 i 13.01.21. Mae hyn yn dangos y lefelau codi a gostwng yn erbyn ffigur y llinell sylfaen ar gyfer atgyfeiriadau diogelu a oedd wedi cael ei chofnodi yr wythnos cyn y pandemig. Mae'r llinell sylfaen honno'n cael ei chynrychioli gan y llinell ddotiog goch, fel y mae'n ymddangos isod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.




Hefyd, mae'r graff isod yn dangos yr asesiad a wnaed i gymharu cysylltiadau diogelu â'r rhai a gafwyd 12 mis yn ôl. At ddibenion enghreifftiol, cafwyd cipolwg ar y sefyllfa yn wythnos 5 (sef wythnos 03.06.20), ac wythnosau 10, 20, 30 a 40 (sef wythnos 03.02.21) yn y cyfnod adrodd o'r amser pan ddechreuodd y pandemig. Mae hyn yn dangos yr asesiadau gan awdurdodau lleol sydd wedi mesur a yw niferoedd y cysylltiadau yn dangos cynnydd, gostyngiad, neu a ydynt tua'r un nifer ag yn yr un cyfnod ddeuddeg mis yn ôl.





Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n rheolaidd â Chadeiryddion a Rheolwyr Busnes y chwe Bwrdd Diogelu yng Nghymru drwy gydol y pandemig hyd heddiw. Mae'r trafodaethau hyn yn rhoi cyfle i Gadeiryddion y Byrddau Diogelu rannu eu sylwadau am unrhyw themâu, neu feysydd sy'n peri pryder, sy'n dod i'r amlwg o ran atgyfeiriadau diogelu. Er bod rhywfaint o bryder ynghylch y gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu yn gynnar yn y pandemig, gwelwyd cynnydd cyson i'r lefelau disgwyliedig hyd at fisoedd yr haf a thu hwnt ac sydd wedi parhau, heblaw am yr amrywio y soniwyd amdano uchod.


Yn eich llythyr, rydych yn gofyn a yw nifer y plant mewn gofal yn ystod y pandemig wedi bod yn sefydlog. Dengys data wythnosol yr awdurdodau lleol y bu ychydig bach o gynnydd yn y niferoedd, ond bod y niferoedd hynny'n llai na'r rhai a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gyda'r ffigurau diweddaraf ym mis Chwefror yn dangos cynnydd o 1.9% ers mis Mawrth 2020.

Mae swyddogion wedi gwneud rhywfaint o ddadansoddi anffurfiol o ddata tri mis cyntaf y cyfnod cyfyngiadau symud. Roedd y dadansoddiad hwn yn dangos bod y niferoedd a oedd yn gadael gofal wedi bod yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda 50% yn llai o ymadawiadau nag yn yr un cyfnod yn 2018/19. O'r cyfarfodydd rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant, rydym yn deall bod nifer yr ymadawiadau o ofal yn dechrau cynyddu.

Mae'r graff isod yn dangos y newid yn y gyfradd fesul 10,000 ers mis Mawrth 2020. (Nodwch: dangosir gostyngiad ym mis Rhagfyr oherwydd y data nad oedd ar gael).




O ran yr atgyfeiriadau diogelu uchod, mae'r graff isod yn dangos niferoedd y plant sy'n derbyn gofal o'u cymharu â niferoedd y ddeuddeg mis blaenorol.



Drwy gydol y pandemig, mae swyddogion wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant. I ddechrau, gwnaethant hynny drwy gynnal cyfarfodydd wythnosol, ac wedyn cyfarfodydd bob pythefnos, a thrwy gynnal cyfarfodydd rhanbarthol bob hyn a hyn. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid drwy gydol y pandemig i hwyluso deialog agored a sicrhau bod cyfle i godi pryderon. Mae'r dull gweithredu agored hwn wedi golygu bod y system gyfan wedi gallu addasu'r ffyrdd o weithio mewn ymateb i ddeinameg y pandemig, er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn parhau i gael cymorth gan y gwasanaethau.

O ran y data a gyhoeddwyd, bydd iteriad nesaf yr ystadegau a ryddheir ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal, yn cael ei gyhoeddi ar 24 Chwefror 2021, a bydd ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020.

Bydd y ddolen ganlynol ar gyfer cael mynediad at y data yn mynd yn fyw o 24 Chwefror [https://gov.wales/children-looked-after-local-authorities-april-2019-march-2020-announcement](https://gov.wales/children-looked-after-local-authorities-april-2019-march-2020-announcement)

Rwy'n gobeithio bod f'ymateb o gymorth ichi.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Eitem 3.2

CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 2

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobol Ifanc ac
Addysg Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Chwefror 2021

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr ar 3 Chwefror ynghylch effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc a dychwelyd i addysg.

Mae addysg yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dechreuodd dysgwyr Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'w hysgolion a'u lleoliadau o 22 Chwefror, ynghyd â rhai dysgwyr galwedigaethol a phrentisiaid mewn sectorau â blaenoriaeth. Fel y cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 19 Chwefror os yw'r sefyllfa iechyd cyhoeddus yn parhau i wella, ein nod yw sicrhau bod gweddill y dysgwyr cynradd, yn ogystal â dysgwyr ym Mlynyddoedd 11 a 13 mewn ysgolion uwchradd a'r rhai sy'n sefyll cymwysterau cyfatebol mewn colegau, yn dychwelyd o 15 Mawrth. Bydd hyblygrwydd hefyd yn cael ei gynnig i ddysgwr eraill er enghraifft rheini ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 10 sydd o bosibl hefyd wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau yr haf hwn

Rydym yn cydnabod y bu darpariaeth dysgu cyfunol yn anghyson yng nghyfnod cychwynnol y pandemig. Cynhaliodd y consortia rhanbarthol adolygiad o ddarpariaeth. Fe lywiodd hyn ddatblygiad canllawiau mwy manwl. Yn fwy diweddar rydym yn cael adborth bod darpariaeth ar-lein cydamserol ac anghydamserol o ansawdd uwch yn cael ei chynnig, ond nid yw hyn yn cyfateb â'r profiad caiff plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Rydym wedi creu Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol, a'u tasg yw i fynd i'r afael â materion tegwch mynediad at ddysgu mewn cyfnodau o amharu ar ddysgu.

Mae mesurau lliniaru pellach wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y gall dysgwyr, staff, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach fod yn hyderus bod ysgolion a lleoliadau yn parhau i fod yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r canllawiau ar ddefnydd staff a dysgwyr o orchuddion wyneb, ynghyd â chyflwyno profi asymptomatig ddwywaith yr wythnos ar gyfer staff yn ogystal â dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a hŷn. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda lleoliadau addysg i gynllunio ar gyfer dychwelyd dysgwyr a staff yn ddiogel, yn ogystal â

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

meithrin ein dealltwriaeth o'r niwed i blant a phobl ifanc. Bydd y wybodaeth hon yn sail i gynllunio adfer addysg o haf 2021 ymlaen.

Mae ein strategaeth frechu yn nodi y bydd y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddal coronafeirws a datblygu salwch difrifol yn cael y brechlyn yn gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (neu'r JCVI). Byddwn yn parhau i gael ein harwain gan gyngor y JCVI. Mae staff mewn ysgolion a cholegau sy'n rhoi cymorth iechyd a gofal personol i grwpiau o bobl ifanc ag anghenion meddygol cymhleth wedi eu cynnwys ochr yn ochr â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yng ngrŵp blaenoriaeth 2 ac felly wedi derbyn cynnig o ddos cyntaf o'r brechlyn erbyn 12 Chwefror.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i darfu cyn lleied â phosib ar ddysgu wrth gadw Cymru'n ddiogel.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 3**

Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

At: Lynne Neagle AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobol Ifanc ac Addysgu

**Trwy ebost yn unig**

25 Chwefror 2021

Annwyl Gadeirydd,

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi adroddiad yn defnyddio fy mhwerau cyfreithiol ffurfiol i adolygu sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymarfer eu swyddogaethau yng nghyswllt dau faes polisi addysg; addysgu gartref ac ysgolion annibynnol.

Fel y byddwch chi ac aelodau'r Pwyllgor yn eithriadol o ymwybodol, roeddwn i wedi bod yn pryderu ynghylch diffyg cynnydd gan Lywodraeth Cymru wrth wneud y newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith cyfreithiol er mwyn diogelu a chynnal mynediad pob plentyn i'w hawliau, ble bynnag maen nhw'n cael eu haddysg. Dyma'r tro cyntaf i swyddfa'r Comisiynydd Plant ddefnyddio'r pŵer yma i adolygu'r Llywodraeth.

Mae fy Adolygiad wedi canfod bod Llywodraeth Cymru wedi methu â diogelu hawliau plant wrth ymarfer eu swyddogaethau yn y ddau faes polisi oedd yn cael eu hadolygu. Er bod llawer o weithgaredd wedi digwydd dros y blynyddoedd, yn y pen draw ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i ddiogelu hawliau plant yn y lleoliadau hyn.

Mae'r Adolygiad yn cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys argymhelliad trosfwaol i'r Llywodraeth ddarganfod beth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau hyn yn gyflym pan gaiff y Llywodraeth newydd ei ffurfio. Allwn ni ddim gweld fy nghanfyddiadau yn yr Adolygiad yn digwydd eto, gyda'r gweithgaredd yn cychwyn o'r cychwyn, i raddau helaeth, ym mhob tymor Senedd, gan fod hynny wedi methu â sicrhau bod modd i'r Llywodraeth wneud y newidiadau angenrheidiol. Er fy mod i'n cydnabod bod swm aruthrol o adnoddau'r llywodraeth wedi cael eu dargyfeirio er mwyn ymateb i'r pandemig, mae'r materion hyn wedi parhau heb eu datrys am gyfnod rhy hir, a bydd yn hanfodol bod gan y Llywodraeth nesaf ym mis Mai 2021 gyfeiriad clir ar gyfer symud ymlaen yn y meysydd polisi hyn. Rwy'n credu y bydd fy argymhellion yn gwneud hynny.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cynnwys rhai argymhellion mwy cyffredinol ynghylch trefniadaeth y Llywodraeth a sut mae'n gweithio ar draws ei swyddogaethau, yn ogystal ag argymhellion ynghylch fy mhwerau cyfreithiol innau. Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, nid wyf wedi gallu cael mynediad at yr holl bapurau roeddwn i am eu gweld er mwyn olrhain ac adolygu sut cafodd penderfyniadau'r Llywodraeth eu gwneud. Mewn democratiaeth, nid wyf yn

Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

**comisiynyddplant.cymru**
**childrenscommissioner.wales**



Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

disgwyl gallu *mynnu* bod unrhyw Lywodraeth na chorff cyhoeddus yn gweithredu, ond mae angen pwerau digonol arnaf fi i gyflawni fy rôl. Mae fy rôl statudol yn gofyn fy mod i'n galw'r Llywodraeth i gyfrif am eu gweithredoedd. Er fy mod i wedi gwneud hynny trwy'r Adolygiad hwn, ni allai'r Llywodraeth ryddhau'r holl bapurau perthnasol oherwydd cyfyngiadau yn y ddeddfwriaeth sy'n sylfaen ar gyfer fy rôl. Rwy'n credu bod angen newid y gyfraith i adlewyrchu hynny.

Mae fy adroddiad yn cyfeirio at nifer o argymhellion o ymchwiliad eich Pwyllgor chithau i Hawliau Plant yng Nghymru, ac rwy'n credu bod fy Adolygiad yn ategu eich argymhellion ynghylch CRIA, sylw dyledus i hawliau plant, a rôl a phenodiad y Comisiynydd Plant.

Cafodd y Llywodraeth yr adroddiad hwn ddechrau mis Ionawr 2021; mae ganddyn nhw tan 7 Ebrill 2021 i anfon eu hymateb ysgrifenedig ffurfiol iddo. Rwy'n edrych ymlaen at ei dderbyn, a byddaf yn parhau i bwyso am newid yn y meysydd polisi hyn. Efallai mai ar niferoedd cymharol fach o blant y maen nhw'n effeithio, ond fel mae'r Adolygiad wedi dangos, mae'n hanfodol bod pob plentyn yn cael mynediad i'w holl hawliau ble bynnag maen nhw, a rhan allweddol o'm rôl i yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

Gallwch chi ddarllen a lawrlwytho holl ddogfennau'r Adolygiad ar fy ngwefan yma: https://www.complantcymru.org.uk/adolygiad-o-sut-mae-llywodraeth-cymru-wedi-ymarfer-ei-swyddogaethau-addysgu-gartref-ac-ysgolion-annibynnol/ Mae hynny'n cynnwys corff yr adroddiad, dwy gronoleg sylweddol yn nodi llinell amser y papurau a'r camau gweithredu rwyf wedi eu hadolygu, a hefyd grynodeb o'r gwaith i bobl ifanc.

Os hoffech chi drafod y gwaith yma ymhellach, byddwn i'n fwy na pharod i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor a/neu i ymddangos yn bersonol ar gyfer craffu pellach.

Yn gywir,

Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a gwladau a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi l We welcome receiving correspondence and calls in Welsh. We will respond to correspondence and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not lead to delay.

Eitem 3.4

**CYPE(5)-07-21 - Papur i'w nodi 4**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@senedd.wales

26 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Rwy’n ysgrifennu atoch er mwyn eich hysbysu bod fy adroddiad ar gydymffurfiaeth â’r ddyletswydd dan adran un o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wedi ei osod gerbron y Senedd ar 26 Chwefror 2020.

Mae copi o’r adroddiad ynghlwm.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hawliau Plant Cymru

Children's Rights Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran un o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Chwefror 2018 – Medi 2020

OGL © Hawlfraint y Goron 2021

WG42281 ISBN digidol 978-1-80082-933-6

**Cynnwys**


| | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | 3 – 4 |
| **Adran un: Cyflwyniad a chyd-destun** | 5 |
| • Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | 5 |
| • Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 | 5 |
| • Strwythur yr adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth | 5 – 6 |
| • Amseru'r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth | 6 |
| • Cynllun Hawliau Plant | 6 – 7 |
| **Adran dau: Dull gweithredu mewn perthynas â phandemig COVID-19** | 8 |
| • Ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19 | 8 |
| • Astudiaeth achos 1: Arolwg 'Coronafeirws a fi' | 8 – 9 |
| • Astudiaeth achos 2: Ffrwd waith plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed | 9 – 10 |
| • Astudiaeth achos 3: Cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc | 11 |
| • Dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â pholisïau sy'n effeithio ar blant yn deillio o bandemig COVID-19 | 12 – 13 |
| • Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19 | 13 – 14 |
| **Adran tri: Cyflawniadau polisi deddfwriaethol allweddol ym maes hawliau plant** | 15 |
| • Astudiaeth achos 4: Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 | 15 – 16 |
| • Astudiaeth achos 5: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 | 16 – 17 |
| **Adran pedwar: Ymgorffori hawliau plant** | 18 |
| • Y gangen Plant | 18 |
| • Arbenigedd ym maes hawliau plant – Y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (GCHP) | 18 – 20 |
| • Hyfforddiant hawliau plant i swyddogion Llywodraeth Cymru | 20 |
| • Astudiaeth achos 6: Sesiwn friffio Comisiynydd Plant Cymru – 23 Medi 2020 | 21 |
| • Astudiaeth achos 7: Cerdyn Adrodd 16 – Sesiwn friffio i Lywodraeth Cymru | 21 - 22 |
| • Ymgorffori hawliau plant i bolisïau | 22 |
| • Astudiaeth achos 8: Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru | 22 - 23 |
| • Astudiaeth achos 9: Gwaith atal caethwasiaeth i ymgorffori ail Brotocol Dewisol CCUHP | 23 – 24 |
| **Adran pump: Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu** | 25 |
| • Y broses ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHP) | 25 - 26 |
| • Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHPau) | 26 |
| • Astudiaeth achos 10: Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc | 26 |
| • Astudiaeth achos 11: Y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad | 27 – 28 |
| **Adran chwech: Grymuso plant** | 29 |

| | |
|---|---|
| • Strategaeth codi ymwybyddiaeth<br>• Astudiaeth achos 12:  Diwrnod Plant y Byd – Dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth<br>• Adnoddau hawliau plant<br>• Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP<br>• Hyfforddiant Allanol (pecyn e-ddysgu ar wefan hawliau plant) | 29<br>29 – 30<br>30 – 31<br>31<br>31 – 32 |
| **Adran saith: Cyfranogiad**<br>• Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc<br>• Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc<br>• Cysylltiadau â fforymau ieuenctid y 22 o awdurdodau lleol<br>• Astudiaeth achos 13: DVD CCUHP i bobl ifanc sy'n gadael llety diogel<br>• Astudiaeth achos 14: Cymryd rhan yn y broses flynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb<br>• Astudiaeth achos 15: Rheolaeth drwy orfodaeth mewn cydberthnasau rhwng pobl ifanc yn eu harddegau | 33<br>33 – 34<br>34 – 35<br>35<br>35 – 36<br>36 – 37<br>38 – 39 |
| **Adran wyth: Atebolrwydd**<br>• Herio Llywodraeth Cymru<br>• Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg<br>• Comisiynydd Plant Cymru<br>• Craffu gan y Senedd<br>• Y Senedd Ieuenctid<br>• Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>• UNICEF UK<br>• Sylwadau terfynol CCUHP | 40<br>40<br>40 – 41<br>41<br>41<br>41 – 42<br>42<br>42<br>42 |
| **Adran naw: Y camau nesaf**<br>• Y camau nesaf o'r adroddiad ar gydymffurfiaeth ar gyfer Mehefin 2015 – Ionawr 2018<br>• Y camau nesaf o 2021 ymlaen<br>• Rhestr termau | 43<br>43 – 44<br>44<br>45 |

## Rhagair y Gweinidog – Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2020. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i fyfyrio ar sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol. Mae'n ymdrin â chyfnod o ryw ddwy flynedd a hanner ers yr adroddiad diwethaf ar gydymffurfiaeth ac ers i mi gael fy mhenodi'n Ddirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2018.

Mae'r Llywodraeth hon am i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwireddu eu potensial. Mae hawliau plant yn cefnogi'r uchelgais hwnnw, a dyna pam bod hawliau plant wrth wraidd y polisïau a'r rhaglenni sydd ar waith gennym i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Gwelwyd nifer o gyflawniadau deddfwriaethol sylweddol yn ystod cyfnod yr adroddiad. Ym mis Mawrth 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol. Pan ddaw adran 1 o'r Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022, bydd yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.


Ym mis Ionawr 2020, pasiodd Senedd Cymru Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddechrau pobl ifanc ar eu taith ddemocrataidd ac yn eu grymuso i ymgysylltu â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Rwy'n ymwybodol iawn ein bod yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yng nghanol pandemig COVID-19. Bu 2020 a dechrau 2021 yn anodd i lawer, yn enwedig plant, felly rwyf wedi achub ar y cyfle yn yr adroddiad hwn i drafod sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb, hyd yn hyn, i argyfwng COVID-19. Gohiriwyd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn o haf 2020 wrth i adnoddau gael eu hailflaenoriaethu er mwyn ymateb i'r argyfwng.

Bu'n hanfodol i ni wrando ar blant a phobl ifanc a'u clywed yn ystod y pandemig. Mae'r penderfyniadau a wnaed gan y Llywodraeth wedi effeithio ar eu bywydau – a hynny mewn ffordd gadarnhaol ac mewn ffordd negyddol. Roedd deall eu teimladau yn agwedd hanfodol ar yr arolwg 'Coronafeirws a fi'[1], a gynhaliwyd o dan arweiniad Comisiynydd Plant Cymru, ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Plant yng Nghymru a Senedd Ieuenctid Cymru.

Mae'r ymatebion i'r arolwg a thrafodaethau rhithwir â phobl ifanc wedi llywio ein ffordd o feddwl a'n penderfyniadau. Rwy'n ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg ac i'r bobl ifanc hynny a fu'n cyfarfod â'm Gweinidogion a'm swyddogion yn ystod y misoedd diwethaf.

Rwy'n parhau'n gwbl ymrwymedig fel eiriolwr a hyrwyddwr hawliau plant i sicrhau y cânt eu hymgorffori ymhellach i waith y llywodraeth.



**Julie Morgan**

Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



[1] Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2020. Cynhaliwyd ail arolwg 'Coronafeirws a fi' ym mis Ionawr/Chwefror 2021, ac nid ystyriwyd canlyniadau'r arolwg hwnnw fel rhan o'r adroddiad hwn.

# Adran un: Cyflwyniad a chyd-destun

### CCUHP

Mae CCUHP yn dod â hawliau dynol plant a phobl ifanc, hyd at 18 oed, ynghyd fel rhan o un Confensiwn rhyngwladol. Mae CCUHP yn cynnwys 54 o erthyglau sy'n ymdrin â sawl agwedd ar fywyd plentyn ac yn nodi'r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae gan blant yr hawl i'w cael. Ystyrir bellach bod yr hawliau hyn yn gysylltiedig â thair thema, sef hawliau Amddiffyn, Darparu a Chyfranogi.

### Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae hawliau plant wedi'u hymgorffori i'r gyfraith yng Nghymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2], y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel **Y Mesur**. Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[3] a'i Brotocolau Dewisol[4] wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae'r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth yn dangos sut mae Gweinidogion Cymru a swyddogion yn Llywodraeth Cymru yn dangos y ddyletswydd honno i roi sylw dyledus yn ymarferol. Mae Cynllun Hawliau Plant (CHP) 2014 yn nodi'r trefniadau sydd ar waith gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.

### Strwythur yr adroddiad hwn

Mae strwythur yr adroddiad hwn yn adlewyrchu pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a nodir yn adroddiad Comisiynydd Plant Cymru (CPC), *Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru.*[5] Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar y meysydd canlynol:

---

[2] Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

[3] Mae Adran 1 o'r Mesur yn nodi o 1 Mai 2014 fod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau, roi sylw dyledus i ofynion:

a) Rhan I o CCUHP;
b) Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i CCUHP ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2);
c) Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i CCUHP ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

[4] Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant a Phrotocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant

[5] https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-cymru/

- Cyflwyniad a chyd-destun (Tudalennau 5 – 7)
- Dull gweithredu mewn perthynas â phandemig COVID-19 (Tudalennau 8 - 14);
- Cyflawniadau polisi deddfwriaethol allweddol ym maes hawliau plant (Tudalennau 15 - 17);
- Ymgorffori hawliau plant (Tudalennau 18 - 24);
- Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu (Tudalennau 25 - 28);
- Grymuso plant (Tudalennau 29 - 32);
- Cyfranogiad (Tudalennau 33 - 39);
- Atebolrwydd (Tudalennau 41 - 42);
- Y camau nesaf (Tudalennau 43 - 44).

**Amseru'r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth**

Fel y nodwyd yn CHP 2014, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i baratoi adroddiad ar gydymffurfiaeth bob dwy flynedd a hanner.

Mae'r adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2020, sef cyfnod o ychydig dros ddwy flynedd a hanner. Gohiriwyd y dyddiad ar gyfer ei gyhoeddi oherwydd y sefyllfa ddigynsail o ganlyniad i'r pandemig, a'r angen i ailflaenoriaethu adnoddau.

Bydd yr adroddiad nesaf ar gydymffurfiaeth yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023.

**Cynllun Hawliau Plant (CHP)**

Mae CHP yn ofynnol o dan Adran dau o'r Mesur sy'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion lunio cynllun o'r fath er mwyn nodi'r trefniadau y maent wedi'u rhoi ar waith, neu y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i ofynion

a) Rhan I o CCUHP;

b) Erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i CCUHP ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog, ac eithrio erthygl 6(2);

c) Erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i CCUHP ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.

Mae CHP presennol 2014 yn nodi'r trefniadau hyn. Mae'r CHP yn rhan o gyfres gynhwysfawr ehangach o adnoddau sydd gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddeall hawliau plant ac annog trafodaethau yn eu cylch.

Mae'n bryd adolygu CHP 2014, ac mae CHP diwygiedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus[6] ar hyn o bryd. Daw'r ymgynghoriad hwnnw i ben ddiwedd mis Mawrth 2021.  Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn myfyrio ar yr adborth, yn diweddaru'r CHP ac yn anelu at gyhoeddi'r ddogfen ddiwygiedig yn ystod hydref 2021.

[6] Ymgynghoriad ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021

## Adran dau: Dull gweithredu mewn perthynas â phandemig COVID-19

**Ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19**

Mae COVID-19 yn parhau i achosi argyfwng iechyd gwladol digynsail, gan effeithio ar y boblogaeth gyfan, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae rhan olaf cyfnod yr adroddiad ar gydymffurfiaeth (rhwng mis Mawrth 2020 a mis Medi 2020) yn ymdrin ag ychydig fisoedd cyntaf pandemig COVID-19.

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ddatganiad yn mynegi pryder ynghylch sefyllfa plant ledled y byd, yn enwedig y rheini mewn sefyllfaoedd bregus, oherwydd effeithiau pandemig COVID-19.

Mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r AEHPau a gwblhawyd ganddi mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed i geisio lleihau effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn tynnu sylw at waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau pandemig COVID-19 i wrando ar safbwyntiau plant a phobl ifanc er mwyn deall eu profiadau o'r pandemig.

**Astudiaeth achos 1: Arolwg 'Coronafeirws a fi'**

Gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â CPC, Plant yng Nghymru (CiW) a'r Senedd Ieuenctid i gynnal arolwg ar-lein er mwyn holi plant a phobl ifanc am eu profiadau yn ystod pandemig COVID-19. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i CPC chwarae rhan arweiniol wrth gynnal yr arolwg a chymryd cyfrifoldeb dros ddadansoddi'r prif ddata o safbwynt annibynnol. Lansiwyd yr arolwg am gyfnod o bythefnos ym mis Mai.

Cynlluniwyd cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar Erthyglau CCUHP a thrwy ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Yr arolwg hwn oedd y cyntaf o'i fath yn y DU ac fe'i cydnabuwyd gan UNICEF UK fel esiampl i'w dilyn gan wledydd ledled y byd.

Ymatebodd mwy na 23,700 o blant a phobl ifanc gan gyflwyno eu safbwyntiau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio canlyniadau'r arolwg i sicrhau y caiff hawliau a safbwyntiau plant eu hystyried wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Cyhoeddwyd y prif ddata ym mis Mehefin 2020[7] ac roedd y rhan fwyaf o blant yn nodi eu bod yn pryderu am fethu allan ar eu haddysg. Gwrandawodd Llywodraeth Cymru ar yr adborth hwn a gweithredodd, gan roi'r cyfle i bob disgybl 'Ailgydio, Dal i fyny a Pharatoi' drwy ddychwelyd i'r ysgol yn ystod yr Haf.

Cyhoeddodd CPC dri adroddiad arall yn ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl[8], plant o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol[9] a phobl ifanc 15-18 oed[10].

Ar 23 Medi 2020, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru sesiwn friffio i swyddogion. Daeth 162 o swyddogion i'r sesiwn lle cafodd negeseuon allweddol eu rhannu.

Cafodd gweinidogion y Cabinet ac uwch-swyddogion hefyd eu briffio ar y canfyddiadau a defnyddiwyd data'r arolwg yn helaeth fel rhan o Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHPau) ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Mae astudiaeth achos 2 yn dangos y pwys sylweddol a roddodd Llywodraeth Cymru ar amddiffyn plant sy'n agored i niwed yn ystod y pandemig.

**Astudiaeth achos 2: Ffrwd waith plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed**

Mewn ymateb i bandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig, sefydlwyd ffrwd waith drawslywodraethol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a diogelu.

[7] Prif ddata Coronafeirws a fi
[8] Coronafeirws a fi: Deall sut brofiad mae plant a phobl ifanc anabl wedi'i gael yn ystod y pandemig yng Nghymru
[9] Coronafeirws a fi: Profiadau plant o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru
[10] Coronafeirws a fi: Ymatebion i'r arolwg gan bobl ifanc 15-18 oed

Ei phrif nod oedd sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed **'yn ddiogel, yn cael eu gweld a'u clywed'** yn ystod yr argyfwng.

Roedd y ffrwd waith hon yn cynnwys arweinwyr polisi o faes addysg, plant a theuluoedd, tai, cymunedau, ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Drwy fapio gwaith a chynlluniau adrannau, a thrwy drefniadau cyfathrebu ac ymgysylltu helaeth, aeth ati i hwyluso trefniadau ar gyfer ystyried, atal a lliniaru effaith pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Yn ogystal, sefydlwyd grŵp cynghori allanol, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Plant, Arolygiaethau, y trydydd sector, y Bwrdd Ieuenctid, y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol, Cyfarwyddwyr Addysg, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Hwb Cymorth ACE a'r sector Seicoleg Plant a'r Glasoed. Diben y grŵp hwn oedd rhannu gwybodaeth a nodi unrhyw risgiau a bylchau, a bwydo ei allbwn i'r ffrwd waith.

Erbyn haf 2020, daeth yn amlwg nad dim ond ymateb byrdymor y byddai ei angen i argyfwng pandemig COVID-19, ond y byddai angen strategaeth hirdymor hefyd o ran 'sut i weithredu mewn byd COVID-19' ac er mwyn lleihau'r effaith.

Cydnabuwyd bod pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig yn golygu y gallai *pob* plentyn a pherson ifanc o bosibl fod yn agored i niwed mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, llesiant emosiynol, datblygiad addysgol, sicrwydd swyddi, sefydlogrwydd incwm a thai (rhieni), a hynny yn y byrdymor a'r hirdymor. Felly ehangwyd prif nod y ffrwd waith er mwyn sicrhau bod *pob* plentyn a pherson ifanc **'yn ddiogel, yn cael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu'**.

Mae astudiaeth achos 3 yn nodi sut mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc wedi parhau'n flaenoriaeth drwy gydol y pandemig.

**Astudiaeth achos 3: Cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc**

Mae cefnogi llesiant emosiynol a llesiant meddwl plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'n dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â llesiant emosiynol a llesiant meddwl, rydym wedi cyhoeddi amrywiaeth o gymorth i ddysgwyr. Rydym yn datblygu modiwlau hyfforddi athrawon ar ddatblygiad plant, iechyd meddwl a niwroamrywiaeth er mwyn sicrhau y gall athrawon nodi rhybuddion cynnar am broblemau yn yr ystafell ddosbarth ac y byddant yn gwybod sut a phryd i atgyfeirio achos i wasanaethau arbenigol os a phan fydd angen gwneud hynny.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru drwy gydol 2020 i ddatblygu modiwlau dysgu proffesiynol sy'n ymwneud yn benodol ag effaith COVID-19 ar lesiant. Mae'r rhain yn cynnwys modiwlau ar ddysgu cyfunol a chefnogi llesiant dysgwyr yn ystod y pandemig.

Rydym wedi creu adnodd ar-lein sy'n hyrwyddo amrywiaeth o adnoddau digidol wedi'u cynllunio'n benodol i helpu pobl ifanc i ymdrin â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Mae'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc[11] yn cysylltu pobl ifanc, rhwng 11 a 25 oed, â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy er mwyn meithrin eu gwydnwch a'u helpu yn ystod pandemig y Coronafeirws a thu hwnt.

Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol plant a'r glasoed (CAMHS) i bawb sydd eu hangen ac rydym yn gweithio i wella mynediad i bobl ifanc, gan gynnwys lleihau amseroedd aros a sefydlu timau niwroddatblygiad ym mhob bwrdd iechyd.

[11] Pecyn cymorth iechyd meddwl pobl ifanc

**Dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â pholisïau sy'n effeithio ar blant yn deillio o bandemig COVID-19**

Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o'r mentrau polisi newydd a roddwyd ar waith er mwyn helpu plant drwy'r argyfwng hwn.

- £3m i helpu dysgwyr nad oes dyfeisiau electronig neu gysylltiad â'r rhyngrwyd ar gael iddynt;
- Dyrannwyd hyd at £52m o gyllid ychwanegol er mwyn sicrhau y gall disgyblion sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim barhau i'w cael pan na fyddant yn mynychu'r ysgol (ehangwyd y cynllun hwn i 2020/21 er mwyn cynnwys gwyliau Pasg, hanner tymor y gwanwyn a gwyliau'r haf);
- £420,000 i sicrhau y gall dysgwyr sy'n gwarchod neu sy'n hunanynysu gael prydau ysgol am ddim;
- £29m ar gyfer Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf, caiff 900 o aelodau o staff addysgu ychwanegol eu recriwtio, gan dargedu cymorth ychwanegol at Flynyddoedd 11, 12 a 13, yn ogystal â dysgwyr difreintiedig a dysgwyr sy'n agored i niwed o bob oed;
- Cynllun Cadernid ar gyfer dysgu ôl-16;
- Crëwyd parth diogelwch ar-lein ar Hwb er mwyn i blant allu cael gafael ar gymorth os byddant yn teimlo'n anhapus neu'n anniogel;
- Lluniwyd tudalen benodol ar ddiogelu er mwyn atgoffa pobl y dylent ffonio 101, neu gysylltu â'u hawdurdod lleol, os bydd ganddynt unrhyw bryderon am niwed i blentyn neu oedolyn;
- Hyrwyddwyd ymgyrch yr NSPCC a gomisiynwyd gan Adran Addysg Llywodraeth y DU sy'n annog y cyhoedd i gysylltu â llinell gymorth yr NSPCC i oedolion os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blant yn eu cymuned;
- Fersiwn ddiwygiedig o'r *Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned* (2020) sy'n galluogi darparwyr gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac, yn gynyddol yn y gymuned ehangach, i ddarparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel, yn ddiogel, yn hawdd cael gafael arnynt ac ar gael pan fo'u hangen;
- £1.25m ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth gwnsela mewn ysgolion;

- £3.75 miliwn ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl mewn ysgolion a fydd yn cynnwys cymorth newydd i blant o dan 11 oed;
- £33,000 ychwanegol er mwyn galluogi MEIC, sef y gwasanaeth llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth genedlaethol i blant, i ymateb i'r cynnydd mewn galwadau i'r llinell gymorth ac i lunio adnoddau penodol ar gyfer COVID-19;
- Lansio'r Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc;
- £3.5m i'r Gronfa Datblygiad Plant i blant o dan 5 oed er mwyn rhoi cymorth ychwanegol mewn perthynas â llafaredd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

**Cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19**

Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwysigrwydd y ffordd roeddem yn cyfathrebu â phlant a phobl ifanc yn ystod y pandemig o ran y newidiadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol arnynt a hefyd sut roeddem yn gwrando ar eu safbwyntiau am y newidiadau hynny.

Yn anochel, gwnaeth y pandemig effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i siarad â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb, ond roeddem yn awyddus i ddefnyddio dulliau cyfathrebu rhithwir amser real. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at rai o'r ffyrdd rydym wedi cyfathrebu ac wedi siarad yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc:

- Neges y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i blant a phobl ifanc yn rhoi tawelwch meddwl iddynt mewn perthynas â phandemig COVID-19 ar 25 Mawrth 2020;
- Cyfarfod y Prif Weinidog â'r Senedd Ieuenctid ar 30 Ebrill 2020;
- Cynhadledd i'r wasg y Gweinidog Addysg gyda phlant a phobl ifanc ar 24 Mehefin 2020;
- Cwestiynau uniongyrchol #HoliKirsty gan blant a phobl ifanc drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Cyfarfod y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â chynrychiolwyr o Cymru Ifanc ar 17 Medi 2020;

- Datblygu fersiynau addas i blant o gyngor Llywodraeth Cymru[12].

Mae gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn mynd rhagddo, ond nid yw'n rhan o gwmpas yr adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth.

[12] Helpwch ni newid y ffordd rydyn ni'n ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol

## Adran tri: Cyflawniadau polisi deddfwriaethol allweddol ym maes hawliau plant

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 sy'n dileu'r amddiffyniad cosb resymol;
- Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 er mwyn galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol, fel rhan o'n cynigion i ddiwygio trefniadau etholiadol ym maes llywodraeth leol.

Ystyrir y meysydd hyn ymhellach yn astudiaethau achos 4 a 5 isod.

**Astudiaeth achos 4: Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020**

Ar 20 Mawrth 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 Gydsyniad Brenhinol. Pan ddaw adran un o'r Ddeddf i rym ar 21 Mawrth 2022, bydd yn gwahardd cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru drwy ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol, sef amddiffyniad cyfreithiol yn erbyn cyhuddiad o ymosod a churo. Nid yw hyn yn creu trosedd newydd.

Bydd y ddeddfwriaeth yn helpu i ddiogelu hawliau plant drwy wahardd rhieni ac eraill y mae ganddynt gyfrifoldeb rhieni rhag cosbi plant yn gorfforol. Mae CCUHP yn cydnabod nad yw cosbi plant yn gorfforol, ni waeth pa mor ysgafn, yn gydnaws â hawliau dynol plant o dan Erthygl 19, ac mae wedi galw am ddiddymu'r math hwn o gosbi.

Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd effaith gyfun y Ddeddf, ymgyrch proffil uchel i godi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, yn arwain at ostyngiad pellach yn nifer yr achosion o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru ac i ba raddau y caiff hynny ei oddef.

Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys hysbysebion teledu, radio a digidol, yn dechrau yn 2021. Sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid arbenigol i oruchwylio'r gwaith cyfathrebu a bydd yn rhoi cyngor ar godi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc; caiff y gwaith hwn ei gynnwys o fewn cyd-destun ehangach hawliau plant.

Ystyriwyd safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy'r broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, a'r broses graffu. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynnig deddfwriaethol, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o blaid y cynnig deddfwriaethol ac yn cytuno y byddai'n helpu i gyflawni'r nod o ddiogelu hawliau plant. Gweithiodd UNICEF UK hefyd â phobl ifanc mewn ysgolion ledled Cymru er mwyn casglu sylwadau 1,157 o blant a phobl ifanc ar p'un a ddylid newid y gyfraith neu a ddylai aros yr un fath.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddiddymu cosbi corfforol yng Nghymru yn: Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru

**Astudiaeth achos 5: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**

Ym mis Ionawr 2020, pasiodd Senedd Cymru Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a wnaeth nifer o ddiwygiadau i Senedd Cymru, gan gynnwys ehangu etholfraint y Senedd i bobl ifanc 16 ac 17 oed, ymhlith newidiadau eraill.

Er nad Bil Llywodraeth ydoedd, roedd Llywodraeth Cymru yn gadarn o blaid y bwriad i ostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed yn Etholiadau'r Senedd a cheisiodd roi'r un newid ar waith mewn perthynas â'r etholfraint Llywodraeth Leol drwy Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru).

Yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb'[13], gwnaethom ymrwymo i gefnogi pleidleisiau i bobl ifanc 16 oed a throsodd. Mae gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed yn cynnig cyfle gwerthfawr i ddechrau pobl ifanc ar eu taith ddemocrataidd gan sicrhau eu bod yn meddu ar yr adnoddau priodol i ddod

[13] Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

yn bleidleiswyr rheolaidd yn hytrach na phleidleiswyr achlysurol, a'u grymuso i ymgysylltu â'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Wrth asesu effaith bosibl y newid, ystyriodd Llywodraeth Cymru y dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghori yn ogystal â CCUHP ac yn arbennig yr Erthyglau hynny sy'n ymdrin â'r hawl i ryddid mynegiant, yr hawl i gael eich clywed, eich trin â pharch ac i gael addysg o ansawdd da a gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau. Daethpwyd i'r casgliad y byddai ehangu'r etholfraint yn cael effaith gadarnhaol ar yr hawliau a amlinellwyd yn yr Erthyglau.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ansoddol a oedd yn cynnwys cyfweliadau a sesiynau grŵp ffocws â phobl ifanc er mwyn deall eu canfyddiadau o wleidyddiaeth ac er mwyn nodi unrhyw rwystrau posibl a fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan. [14]

Daeth Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gyfraith yng Nghymru ar 15 Ionawr 2020, ac o ganlyniad, etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 fydd etholiad cyntaf y Senedd lle y bydd gan bobl ifanc 16 ac 17 oed yr hawl i bleidleisio.

Gwnaed gwaith sylweddol hefyd ar y darnau canlynol o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar hawliau plant, gan gynnwys y canlynol:

- Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (mae astudiaeth achos 8 yn amlinellu'r broses o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm newydd)
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru);
- rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.

[14] https://www.understandingsociety.ac.uk/blog/2019/06/05/social-action-as-a-route-to-the-ballot-box

# Adran pedwar: Ymgorffori hawliau plant

**Y gangen Plant**

Mae'r gangen Plant yn rhan o'r Is-adran Plant a Theuluoedd ac mae'n rhoi cyngor ac arweiniad arbenigol i bob rhan o Lywodraeth Cymru ar bob maes sy'n gysylltiedig â hawliau plant.

Mae'r gangen yn arwain y gweithgareddau canlynol:

- Helpu swyddogion i ddeall CCUHP a'i Brotocolau Dewisol a'u rôl wrth sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd sylw dyledus.
- Arwain ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau CCUHP ac argymhellion Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig;
- Paratoi a diweddaru'r CHP;
- Cyflwyno adroddiadau cydymffurfio yn erbyn y ddyletswydd o dan adran un o'r Mesur;
- Helpu swyddogion i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc a pharatoi dogfennau sy'n addas i blant;
- Cyngor a chymorth mewn perthynas ag AEHPau.

Mae'r gangen yn gyfrifol am reoli grantiau Plant yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Plant yng Nghymru er mwyn hwyluso gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a rhoi cymorth i weithwyr proffesiynol yn y sector plant.

Y gangen Plant yw corff noddi Comisiynydd Plant Cymru (CPC) a'i swyddfa. Mae swyddfa CPC yn sefydliad hawliau dynol annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

**Arbenigedd ym maes hawliau plant – Y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant (GCHP)**

Mae'r gangen Plant hefyd yn gyfrifol am gael gafael ar arbenigedd allanol ym maes Hawliau Plant er mwyn hwyluso'r broses llunio polisïau. Mae'r GCHP, sy'n cyfarfod bob chwarter, yn gweithredu fel cyfaill beirniadol er mwyn rhoi cyngor ar hawliau

plant – gan gynnwys AEHPau drafft ac Asesiadau Effaith Integredig (AEIau). Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- swyddfa CPC,
- Plant yng Nghymru,
- UNICEF UK,
- Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r GCHP yn darparu fforwm ar gyfer:

- cyfnewid gwybodaeth;
- cyflwyno cyngor ac arbenigedd;
- cyflwyno syniadau newydd ar gyfer gweithredu;
- trafod blaenoriaethau a pholisi a deddfwriaeth sy'n datblygu.

Yn ogystal, mae unigolion o'r GCHP (neu'r grŵp cyfan) wedi rhoi cymorth yn ystod pandemig COVID-19 i gynnal trafodaethau ar ffurf gweithdai byr i drafod goblygiadau posibl unrhyw bolisi/penderfyniad newydd i blant – gan gynnwys AEHPau. Mae'r trafodaethau hyn yn ffordd bwysig o wella'r broses llunio polisïau drwy brofi syniadau ag arbenigwyr a chael gwybodaeth werthfawr am y ffordd y bydd cynigion yn gweithio'n ymarferol o safbwynt gwahanol grwpiau o blant.

Nod Llywodraeth Cymru yw parhau i weithredu'r GCHP yn y dyfodol agos, gan gynnwys defnyddio'r GCHP i'w helpu i roi'r 'camau nesaf' a restrir yn adran wyth ar waith.

Mae'r enghreifftiau o drafodaethau a hwyluswyd gan y GCHP yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- Trafodaethau am ailagor ysgolion ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf;
- Gwahardd ymdrechion masnachol gan drydydd partïon i werthu cŵn a chathod bach hyd at chwe mis oed;
- Canllawiau ar yr addasiadau dros dro arfaethedig i ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig, o ran unrhyw effaith bosibl ar hawliau plant yn deillio o'r addasiadau dros dro hyn;

- Y dull gweithredu mewn perthynas â chyllideb Llywodraeth Cymru ac ystyried hawliau plant;
- Cynllunio digwyddiad dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu cysylltiedig;
- Ystyried yr AEHP ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref;
- Ystyried yr AEHP ar gyfer Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol;
- Trafodaeth ar Brexit a phlant a phobl ifanc.

**Hyfforddiant hawliau plant i swyddogion Llywodraeth Cymru**

Ein nod yw helpu swyddogion i ystyried hawliau plant a'r ddyletswydd sylw dyledus o fewn cyd-destun gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc a helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i wireddu eu hawliau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig hyfforddiant hawliau plant o sawl math i'w swyddogion, gan gynnwys y canlynol:

- Cyngor wyneb yn wyneb gan y gangen Plant;
- Gwybodaeth ac adnoddau;
- Sesiynau briffio dosbarthiadau meistr, er enghraifft, gyda CPC ac UNICEF UK;
- Cyngor a thrafodaethau â'r GCHP ar gynigion polisi penodol;
- Argaeledd sail tystiolaeth ar blant a phobl ifanc a gwahanol grwpiau o blant;
- Bwletinau rheolaidd i staff;
- Ymgyrchoedd hawliau plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau bod corff mawr o wybodaeth am hawliau plant ar gael i swyddogion er mwyn eu galluogi i roi cyngor cynhwysfawr i Weinidogion Cymru. Fel yr amlinellir yn y CHP drafft[15], caiff dull hyfforddi amlhaenog newydd ei ddatblygu er mwyn dwyn ynghyd y gwahanol adnoddau hyfforddi a chyfleoedd rhannu gwybodaeth i swyddogion Llywodraeth Cymru.

[15] Ymgynghoriad ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021

Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio un cyfle hyfforddiant â Chomisiynydd Plant Cymru.

**Astudiaeth achos 6: Sesiwn friffio CPC – 23 Medi 2020**

Trefnodd y gangen Plant i CPC annerch staff fel rhan o sesiwn fyw ar-lein. Soniodd y Comisiynydd am y canlynol: rôl y Comisiynydd Plant; pam bod hawliau plant yn bwysig; pwysigrwydd asesiadau effaith; a chanfyddiadau arolwg 'Coronafeirws a fi'.

Mynychodd 162 o unigolion y digwyddiad a lwyddodd i greu ymwybyddiaeth o'r arolwg a diddordeb ynddo, gan gynyddu ei effeithiolrwydd wrth lywio polisi.

Helpodd y sesiwn codi ymwybyddiaeth hon i wella dealltwriaeth swyddogion o hawliau plant a'r cysylltiadau â datblygu polisïau. Rhoddodd gyfle hefyd i swyddogion ystyried y dystiolaeth a ddeilliodd o'r arolwg a sut y gallai lywio datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd sefydliadau allanol i ddarparu her mewn perthynas â'n cynnydd ym maes hawliau plant.

**Astudiaeth achos 7: Cerdyn Adrodd 16 – Sesiwn friffio i Lywodraeth Cymru**

Ym mis Awst 2020, hwylusodd Llywodraeth Cymru sesiwn friffio gan UNICEF UK er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion am eu cerdyn Adrodd Innocenti[16]: Deall beth sy'n llywio llesiant plant mewn gwledydd cyfoethog.

Ystyriodd Cerdyn Adrodd 16 lesiant amlddimensiwn plant mewn 41 o wledydd sy'n rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd/UE. Mae'r

[16] Cerdyn Adrodd Innocenti 16

adroddiad yn dechrau drwy gyflwyno tabl cynghrair o ganlyniadau llesiant plant ar gyfer 38 o wledydd.

Fel rhan o'r sesiwn friffio, rhoddwyd gwybodaeth i fwy na 50 o swyddogion am y cerdyn adrodd a statws y DU a chyfle i ystyried y canfyddiadau mewn perthynas â'u meysydd gwaith penodol.

**Ymgorffori hawliau plant i bolisïau**

Mae astudiaeth achos 8 yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgorffori hawliau plant i'r cwricwlwm newydd i Gymru.

**Astudiaeth achos 8: Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru**

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos â CPC drwy gydol y broses o ddatblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd y broses. Yn ystod y cam datblygu cychwynnol, cynhaliwyd gwaith ymchwil a thystiolaeth fanwl er mwyn mapio pedwar diben y cwricwlwm newydd a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad yn erbyn erthyglau CCUHP. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn helpu'r ysgolion arloesi i ddeall natur drawsbynciol a phwysigrwydd hawliau plant.
Mae'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae hawliau yn rhan o'r datganiadau Yr Hyn sy'n Bwysig gorfodol. Caiff hawliau dynol eu cynnwys fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a cheir fframwaith cynnydd clir ar gyfer datblygu a deall hawliau.
- Cyhoeddwyd canllawiau er mwyn cyfeirio a phwysleisio pwysigrwydd a lle hawliau dynol ym mhob rhan o gwricwlwm ysgol. Cyd-ddrafftiwyd y canllawiau hyn â chynrychiolwyr o swyddfa CPC, Llywodraeth Cymru a'r ysgolion arloesi.

Bu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CPC yn hollbwysig wrth sicrhau bod hawliau plant ac addysg hawliau dynol yn thema drawsbynciol bwysig yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n

eang â phartïon eraill ym mhob rhan o'r trydydd sector i ddatblygu canllawiau Cwricwlwm i Gymru.

Mae astudiaeth achos 9 yn dangos dull Llywodraeth Cymru o ymgorffori'r ail Brotocol Dewisol ar werthu plant a gwaith atal caethwasiaeth Llywodraeth Cymru.

**Astudiaeth achos 9: Gwaith atal caethwasiaeth i ymgorffori ail Brotocol Dewisol CCUHP**

Ym mis Ionawr 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru sy'n  darparu arweinyddiaeth strategol mewn perthynas â mynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae'r Grŵp Arwain mewn sefyllfa unigryw i ychwanegu gwerth drwy gydgysylltu trefniadau cydweithio ar draws partneriaid er mwyn cynllunio a chefnogi'r ddarpariaeth yng Nghymru, gan felly fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i roi datrysiadau amlasiantaeth ar waith er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern.

Mae'r Grŵp Arwain yn dod â'r partneriaid amlasiantaeth perthnasol yng Nghymru ynghyd o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr Heddlu, yr Awdurdod er Atal Cam-drin Gweithwyr gan Feistri Gangiau, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Diogelu, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Bawso, Llwybrau Newydd, Barnardos Cymru, Academia ac UNICEF UK.

Mae'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid Annibynnol Masnachu mewn Plant a ariennir gan y Swyddfa Gartref ar waith yng Nghymru, ac yn cael ei weithredu gan Barnardos Cymru. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau y rhoddir cymorth cyson i blant y camfanteisiwyd arnynt drwy unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern. Ers mis Ionawr 2017, daeth dros 600 o blant rhwng 10 mis oed a 18 oed yn rhan o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan y Gwasanaeth Gwarcheidwaid ac mae'r plant hynny yn cael eu diogelu.

Mae UNICEF UK wedi cydnabod gwaith partneriaeth amlasiantaeth y Grŵp Arwain ac ym mis Mawrth 2020, gwahoddwyd cynrychiolwyr i gyflwyno eu gwaith ac i rannu arferion da mewn seminar ym Mrwsel a fynychwyd gan Aelodau Senedd Ewrop, Swyddogion y Llywodraeth, Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith, Academyddion ac Asiantaethau Anllywodraethol. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwaith y Gwasanaeth Gwarcheidwaid a gweithgareddau i atal achosion o gamfanteisio ar blant drwy unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern.

## Adran pump: Cydraddoldeb a dim gwahaniaethu

Mae'r egwyddor cydraddoldeb a dim gwahaniaethu yn seiliedig ar ein hymrwymiad y dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyfle cyfartal i wneud y gorau o'i fywyd a'i dalentau, ac na ddylai unrhyw blentyn wynebu cyfleoedd bywyd gwael oherwydd gwahaniaethu.

**Y broses ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**
Mae Cymru yn un o blith nifer fach o wledydd datblygedig â system ar waith i asesu effaith ein cynigion polisi ar hawliau plant.

Yn Llywodraeth Cymru, cynhelir AEHP fel rhan o'r broses AEIau. Gellir cynnal AEHPau fel asesiad effaith annibynnol lle nodir bod angen gwneud hynny (er enghraifft, lluniwyd AEHPau annibynnol ar gyfer rhai o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19). Mae'r AEI yn fframio hawliau plant a phobl ifanc o fewn iaith llunio a gwerthuso polisïau. Mae'r AEHP yn helpu swyddogion i ystyried effeithiau (cadarnhaol a negyddol) unrhyw gyfraith, polisi neu benderfyniad cyllidebol arfaethedig ar blant a'u hawliau.

Nod AEHP yw helpu Gweinidogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus o dan Adran un o'r Mesur; mae'n helpu i sicrhau y caiff CCUHP ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

Ni fydd pob penderfyniad a wneir na phob cam a gymerir gan Weinidogion Cymru yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac felly ni fydd angen cynnal AEHP bob tro. Fodd bynnag, lle y penderfynir peidio â chwblhau'r templed ar gyfer AEHP, rhoddir cyfarwyddyd i swyddogion gofnodi a chadw eu rhesymau dros y penderfyniad hwn.

| | **2018 (Chwefror-Rhagfyr)** | **2019** | **2020 (Ionawr-Medi)** |
|---|---|---|---|
| **AEHPau a gwblhawyd** | 31 | 20 | 23 |

Cwblhawyd cyfanswm o 74 o AEHPau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cynnydd o gymharu â chyfnod yr adroddiad diwethaf lle y cwblhawyd 66 o AEHPau.

**Cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant (AEHPau)**

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n deillio o asesiadau effaith yn fwy tryloyw a'u bod ar gael i'r cyhoedd, cafodd pob AEHP a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru (23) o 1 Ionawr 2020 ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[17].

Mae astudiaeth achos 10 yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd integredig mewn perthynas â chydraddoldeb wrth atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

**Astudiaeth achos 10: Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc**

Gall diffyg cyflenwad sicr o dai olygu dyfodol llwm, anghyfiawn, heb gyfleoedd i bobl ifanc. Yn 2019-20, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Arloesi wedi'i hanelu at helpu prosiectau i gynnig darpariaeth tai newydd ac arloesol i bobl ifanc. Mae'r prosiectau hyn wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n agored i niwed ac y mae risg y byddant yn dod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Mae'r gronfa £4m yn anelu at gynyddu'r opsiynau tai a chymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys unigolion sy'n gadael gofal, pobl ifanc anabl a'r rheini a fu'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, ond heb fod yn gyfyngedig i'r unigolion hynny'n unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi 26 o brosiectau ar waith ledled Cymru.

Mae'r amrywiaeth o brosiectau yn cynnwys; llety â chymorth, cymorth tenantiaeth, Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc, fflatiau hyfforddi a chymorth personol dwys. Mae prosiectau penodol i unigolion sy'n gadael gofal, y rheini ag anghenion cymhleth, y rheini sy'n gadael Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar Parc a phrosiect llety â chymorth i unigolion LGBTQ+.

[17] https://llyw.cymru/cyhoeddiadau Gallwch chwilio drwy'r holl gyhoeddiadau yn ôl math drwy ddefnyddio'r hidlydd asesiad o'r effaith ar hawliau plant.

Mae astudiaeth achos 11 yn ystyried y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud i ymdrin ag anghydraddoldebau rhwng gwahanol grwpiau o blant, yn yr achos hwn, gwaith ar y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, i helpu teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**Astudiaeth achos 11: Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad (GDD – Mynediad)**

Mae cost y diwrnod ysgol yn fater pwysig iawn i lawer o deuluoedd yng Nghymru. Rydym am i bobl ifanc ddod i'r ysgol yn barod i ddysgu ac yn barod i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn 2018, gan ddarparu cyllid i deuluoedd er mwyn helpu i dalu am rai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r diwrnod ysgol, yn benodol gwisg ysgol ac offer a chyfarpar arall. Gall teuluoedd y mae eu plant yn **gymwys i gael prydau ysgol am ddim** wneud cais am y grant hwn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os byddant yn dechrau dosbarth derbyn neu flwyddyn 3 mewn ysgol gynradd
- os byddant yn dechrau blwyddyn 7 neu flwyddyn 10 mewn ysgol uwchradd
- os byddant yn 4, 7, 11 neu 14 oed mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion

Rhwng mis Chwefror 2018 a mis Medi 2020, darparodd Llywodraeth Cymru dros £10miliwn yn uniongyrchol i deuluoedd drwy'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dros 70,000 o ddysgwyr wedi cael budd o'r cyllid.

Mae cyllid ar gael hefyd i blant sy'n derbyn gofal ym mhob blwyddyn ysgol. Cynigir grant o £200 i ddysgwyr ym mlwyddyn 7, a grant o £125 i ddysgwyr mewn

blynyddoedd eraill, gan gydnabod y costau uwch sy'n gysylltiedig â dechrau'r ysgol uwchradd.

Boed hynny'n helpu i brynu dillad ysgol neu i gael gafael ar yr offer neu'r cyfarpar sydd eu hangen i bobl ifanc gymryd rhan yn eu hoff chwaraeon neu weithgaredd, bydd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn cefnogi'r cyfleoedd hynny.

## Adran chwech: Grymuso plant

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â grymuso plant a phobl ifanc i fanteisio'n llawn ar eu hawliau a'u cefnogi i herio pan na fyddant yn cael eu hawliau. Mae hyn yn cynnwys dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif os na fyddwn yn gwneud yr hyn y dylem i gynnal eu hawliau.

**Strategaeth codi ymwybyddiaeth**

Mae adran pump o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, o'r Confensiwn a'i brotocolau.

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru achlysur dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP yn ystod 2019/20 i gynnal a hybu ymgyrch codi ymwybyddiaeth o hawliau plant. Canolbwyntiodd yr ymgyrch ar rymuso plant a phobl ifanc i fod yn ymwybodol o'u hawliau ac i wybod sut i wireddu eu hawliau.

Mae astudiaeth achos 12 yn ystyried yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd fel rhan o achlysur dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP yn fanylach.

**Astudiaeth achos 12: Diwrnod Plant y Byd – Dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP ac ymgyrch codi ymwybyddiaeth**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol o'r GCHP ymgyrch codi ymwybyddiaeth gydgysylltiedig er mwyn dathlu 30 mlynedd ers sefydlu CCUHP. Cynhaliwyd cynhadledd ddathlu, a ddatblygwyd ar y cyd â phlant a phobl ifanc, ar 20 Tachwedd 2019 er mwyn cofnodi Diwrnod Byd-eang y Plant.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys gweithdai ymgysylltu i ysgolion, ymweliadau gan Weinidogion ag ysgolion, cyfweliadau (â ffigyrau cyhoeddus blaenllaw), digwyddiadau dathlu, gwaith ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol a sianeli ymgyrchu. Rhoddwyd cyfleoedd i annog unigolion i ymgysylltu â gweithgarwch ein hymgyrch a'r dathliad ac i gymryd rhan eu hunain, a chyflwynwyd amrywiaeth helaeth o ddeunyddiau ac adnoddau hawliau plant ar Hwb.

Ar Ddiwrnod Plant y Byd, daeth 425 o blant a phobl ifanc i ddigwyddiad dathlu yng nghwmni'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod y digwyddiad, gwnaeth y Prif Weinidog yr adduned ganlynol:

> "Rwy'n addo gwneud popeth y gallaf i hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad o fewn Llywodraeth Cymru drwy annog pawb i gydweithio â phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau newydd."

Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â 30 o sefydliadau a phobl proffil uchel er mwyn galluogi pobl ifanc i ymgymryd â rolau arwain yng Nghymru. Roedd y sefydliadau yn cynnwys Arglwydd Faer Caerdydd, Rhwydwaith Superwoman, siopau bwyd Iceland, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, S4C, Felodrom, Canolfan Mileniwm Cymru, Global Radio a'r Principality. Gan ddefnyddio'r hashnod #ChildrenTakeoverWales, tynnwyd lluniau o'r digwyddiadau meddiannu hyn, cawsant eu ffilmio a'u hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd llwyddiannau amlwg o'r ymgyrch yn cynnwys enghreifftiau o gydweithio rhwng partneriaid allweddol, cyfranogiad arweinwyr dylanwadol yng Nghymru, a rhagori ar dargedau cyrhaeddiad ac ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Adnoddau hawliau plant**

Fel rhan o'r dathliadau 30 mlynedd, manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i ddatblygu deunyddiau newydd i godi ymwybyddiaeth.

Mae gan yr adnoddau sawl diben. Gellir eu defnyddio fel a ganlyn:

- Gan blant a phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o CCUHP a'i Brotocolau Dewisol a hawliau plant yn fwy cyffredinol;
- Gan ysgolion i gynnwys dysgwyr yn y sgyrsiau priodol;
- Gan rieni i'w helpu i ddeall CCUHP a'i Brotocolau Dewisol a'u trafod â'u plant;

- Gan weithwyr proffesiynol er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddeall CCUHP a'i Brotocolau Dewisol a'u trafod â'r plant y maent yn gofalu amdanynt;
- Gan swyddogion Llywodraeth Cymru i'w helpu i ddeall CCUHP a'i Brotocolau Dewisol ac iddynt eu defnyddio â'r cyhoedd a phlant fel rhan o weithgareddau ymgysylltu.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth, cyrchwyd 28,655 o adnoddau CCUHP gan unigolion neu sefydliadau, er enghraifft, o ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector.

**Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP**

Dyfarnwyd contract tair blynedd (Hydref 2015-Hydref 2018) i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynhyrchu a chyflwyno hyfforddiant sector-benodol ar CCUHP i'r sectorau canlynol: addysg, gofal cymdeithasol, gofal plant, yr heddlu, cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau lleol, iechyd a chwaraeon.
Estynnwyd y contract am flwyddyn arall er mwyn canolbwyntio ar sectorau lle roedd bylchau o ran hyfforddiant hawliau plant.

Cymerodd cyfanswm o 2,536 o gyfranogwyr ran yn yr hyfforddiant yn ystod cyfnod y contract. Cynigiwyd hyfforddiant ychwanegol i Fyrddau Iechyd, yr Heddlu, Chwaraeon Cymru, myfyrwyr Addysg (fel myfyrwyr TAR, Rhaglenni BA Hyfforddi Athrawon Cymwysedig, myfyrwyr Ifanc a Chymunedol a Myfyrwyr y Blynyddoedd Cynnar) ac Awdurdodau Lleol.

Yn ôl yr adborth gan gyfranogwyr, roedd 95% ohonynt o'r farn bod yr hyfforddiant o safon ***ardderchog* a *da iawn***. O ganlyniad i'r hyfforddiant, mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o CCUHP wedi gwella, gyda chyfranogwyr yn mynegi awydd i roi'r wybodaeth ar waith fel rhan o'u hymarfer; ei rhannu â'u cydweithwyr, sefydliadau a'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

**Hyfforddiant Allanol (pecyn e-ddysgu ar wefan hawliau plant)**

Datblygwyd pecyn hyfforddiant e-ddysgu allanol gan *Youth Friendly* yn 2015 ac roedd ar gael ar y wefan hawliau plant tan fis Tachwedd 2019.

Rhwng mis Chwefror 2018 a mis Tachwedd 2019, cwblhawyd yr hyfforddiant gan 272 o randdeiliaid allanol o amrywiaeth o sectorau.

## Adran saith: Cyfranogiad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn trafodaethau am gynigion sy'n effeithio arnynt.

Mae Erthygl 12 CCUHP yn cydnabod hawliau plant a phobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau, eu teimladau a'u dymuniadau mewn perthynas â phob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried a'u cymryd o ddifrif.

**Plant yng Nghymru a Cymru Ifanc**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i Plant yng Nghymru er mwyn helpu Gweinidogion a thimau polisi i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn ystod y broses o lunio polisïau. Mae'r gweithgarwch hwn yn fuddiol mewn dwy ffordd o ran cyflawni'r ddyletswydd sylw dyledus. Yn gyntaf, mae'n gofyn am safbwyntiau plant a phobl ifanc ar feysydd polisi penodol er mwyn mireinio safbwyntiau polisi. Yn ail, mae'n hwyluso sgyrsiau uniongyrchol rhwng plant a phobl ifanc a Gweinidogion Cymru.

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso trefniadau ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc drwy ei Fwrdd Prosiect Cymru Ifanc a fforymau ieuenctid. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru ac yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru i ystyried barn, profiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc wrth arfer eu swyddogaethau.

Mae Plant yng Nghymru wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc er mwyn cefnogi amrywiaeth o drafodaethau polisi gan gynnwys y canlynol:

- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae;
- Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr i Gymru – Gwaith ymgysylltu mewn perthynas â 'Young Carers Matter';
- Trafodaethau rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

- Effaith Brexit a chysylltiadau Ewropeaidd yn y dyfodol ar blant a phobl ifanc;
- Isafbris uned am alcohol.

**Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**

O dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Yn 2015, diweddarwyd y canllawiau statudol hyn i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[18]. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfranogiad gweithredol pobl a chymunedau wrth wraidd y broses o wella llesiant, yn ogystal â bod yn un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn y Ddeddf.

Mae Plant yng Nghymru yn gweithio'n agos â'i aelod-sefydliadau, awdurdodau lleol a sefydliadau statudol eraill i hyrwyddo'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Safonau yn nodi'r materion allweddol y dylai gweithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Dyfernir y Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol, a sefydlwyd yn 2007, gan Plant yng Nghymru i wasanaethau sydd wedi dangos eu bod yn llwyddo i gyflawni yn erbyn y saith Safon Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r nod barcud.  Mae Plant yng Nghymru yn gweithio gyda phartneriaid i recriwtio a hyfforddi Arolygwyr Ifanc sy'n chwarae rhan allweddol ym mhroses achredu'r Nod Barcud Cyfranogiad Cenedlaethol. Mae'r Arolygwyr Ifanc yn adolygu cyflwyniadau gan sefydliadau sy'n gwneud cais am y nod barcud ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfarniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2020), dyfarnwyd statws nod barcud i'r sefydliadau canlynol:

- partneriaeth Think Families Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

[18] Canllawiau statudol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc tud. 46

- Cymdeithas Dai Charter
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Torfaen
- Awdurdod Lleol Caerffili (7 gwasanaeth)
- Gwasanaeth Ieuenctid Awdurdod Lleol Caerdydd
- Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion

**Cysylltiadau â fforymau ieuenctid y 22 o awdurdodau lleol**

Mae tîm Cymru Ifanc Plant yng Nghymru wedi gweithio'n agos â fforymau/cynghorau ieuenctid awdurdodau lleol ers 2015. Fel rhan o'r broses, cynhaliwyd cyfarfodydd â gweithwyr cyfranogiad yr awdurdodau lleol a mynychwyd y fforymau. Mae'r fforymau yn cynnwys tua 20-30 o aelodau rhwng 11 a 25 oed ac maent yn anelu at sicrhau aelodaeth eang sy'n cynnwys plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig. Mae Plant yng Nghymru hefyd yn rheoli Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod arferion da ac yn cynnig cyfleoedd dysgu gan gyfoedion.

Mae astudiaeth achos 13 yn rhoi enghraifft o sicrhau bod gwybodaeth ar gael a'i bod yn hygyrch i blant a phobl ifanc.

**Astudiaeth achos 13: DVD CCUHP i bobl ifanc sy'n gadael llety diogel**

Nodwyd bod angen adnodd i bobl ifanc yn y ddalfa yng Nghymru i'w hysbysu am eu hawliau o dan CCUHP. Gallai'r adnodd eu helpu i gael gafael ar wybodaeth am addysg a chyngor ar yrfaoedd yng nghyd-destun y ddarpariaeth yng Nghymru.

Aeth Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) Cymru ati i ymgymryd â gwaith gyda grŵp ffocws yng Nghartref Diogel Hillside i Blant, gan drafod hawliau plant a gwybodaeth am Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth (AHC). Nodwyd mai ffilm fer fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno gwybodaeth gan fod gan nifer o'r bobl ifanc broblemau canolbwyntio a llythrennedd. Awgrymwyd y byddai'n fwy addas at y gynulleidfa pe câi troseddwyr ifanc eu cynnwys wrth ddatblygu, cynhyrchu a chymryd rhan yn y ffilm.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ffilm fer "INSIDE OUT / TU FEWN TU FAS"[19] i'w defnyddio'n bennaf yn ystod y broses sefydlu i bobl ifanc (10-18 oed) o Gymru pan fyddent yn cael eu derbyn i'r ddalfa yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ffilm yn rhoi gwybodaeth berthnasol i bobl ifanc am eu hawliau o dan CCUHP, a sut i gael gafael ar gyngor ar addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd yn y ddalfa neu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa.

Rhoddodd y prosiect gyfle i 12 o bobl ifanc ennill cymhwyster BTEC Lefel 1 mewn Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol wrth iddynt weithio ar y ffilm. Roedd cyfle hefyd iddynt ddatblygu i astudio'r cymhwyster hyd at Lefel 2 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, os oeddent am wneud hynny. Cafodd sgript y ffilm ei hysgrifennu gan y bobl ifanc. Nhw hefyd a gyflwynodd y ffilm ac a gynhyrchodd y deunydd animeiddiedig a'r gerddoriaeth wreiddiol.

Mae'r adborth gan y dalfeydd yn gadarnhaol, a chaiff y ffilm ei defnyddio yn ystod y broses sefydlu, yn ystod gweithgareddau addysgol a chyn rhyddhau unigolion i'r gymuned.

Mae astudiaeth achos 14 yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o bennu'r gyllideb.

**Astudiaeth achos 14: Cymryd rhan yn y broses flynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi chwilio am gyfleoedd i wella ei threfniadau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy'r broses flynyddol ar gyfer pennu'r gyllideb. Nod hyn yw gwella ymwybyddiaeth o gyllideb Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun pwerau datganoledig Cymru, a chlywed profiadau staff a defnyddwyr gwasanaethau mewn lleoliadau a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Er mwyn cefnogi'r gweithgaredd hwn, gwnaethom hefyd

[19] DVD gan Lywodraeth Cymru yw'r DVD hwn a gafodd ei ddosbarthu i bob Sefydliad Troseddwyr Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel a Chartref Diogel i Blant yng Nghymru a Lloegr ac i Dimau Troeddwyr Ifanc ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru i'w ddefnyddio gyda phobl ifanc wrth iddynt fwrw eu dedfrydau cymunedol.

gyhoeddi taflen hygyrch am y gyllideb wedi'i hanelu at blant a phobl ifanc yn 2019 a 2020, gan ddefnyddio'r daflen hygyrch am y gyllideb a gyhoeddwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol fel sail. Mae'r enghreifftiau o waith ymgysylltu yn ystod y cyfnod rhwng mis **Chwefror 2018 a mis Medi 2020** yn cynnwys y canlynol:

**Haf 2018** – Gweithgareddau parhaus i wella ymwybyddiaeth o'r gyllideb, gan gynnwys cyflwyniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Gwanwyn 2019** – Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cyflwyno drwy ymweld ag ysgol uwchradd yn Ne Cymru a chynnal trafodaeth â disgyblion Blwyddyn 6 am sut mae Llywodraeth Cymru yn codi ei harian a ble y caiff ei wario. Aeth swyddogion hefyd i ysgol gynradd yng Nghaerdydd i gyflwyno negeseuon allweddol am y gyllideb ac i gael adborth. Bu hyn o gymorth wrth ddatblygu'r daflen i blant a phobl ifanc am y gyllideb.

**Haf 2019** – Aeth y Gweinidog Cyllid i amrywiaeth o leoliadau a ariennir yn gyhoeddus ledled Cymru gyfan sy'n darparu gwasanaethau ym mhob un o'r wyth maes blaenoriaeth trawsbynciol sy'n rhan o Gyllideb 2020-21. Y diben oedd cyfleu negeseuon allweddol wrth baratoi cyllideb 2020-21 a chlywed yr heriau a'r cyfleoedd cyffredin sy'n wynebu'r lleoliadau hyn fel rhan o'u gwaith beunyddiol.

Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys ysgol gynradd ym Mhenarth a oedd yn treialu'r 'Cynllun Chwarae Llwgu yn ystod y Gwyliau'; Hwb YMCA yn Ne Cymru sy'n darparu amrywiaeth o swyddogaethau cymorth i'r gymuned gyfan; canolfannau elusennol yng Nghaerdydd ac ar Ynys Môn sy'n darparu amrywiaeth o gymorth i deuluoedd yn y gymuned leol, gan gynnwys gwasanaethau a gaiff eu harwain gan bobl ifanc; un o ganolfannau Gyrfa Cymru yn y Canolbarth.

Mae astudiaeth achos 15 yn dangos sut yr aeth Llywodraeth Cymru ati i gynnwys pobl ifanc yn yr ymgyrch rheolaeth drwy orfodaeth.

**Astudiaeth achos 15: Rheolaeth drwy orfodaeth mewn cydberthnasau rhwng pobl ifanc yn eu harddegau**

Mae'r ymgyrch 'Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn' yn rhan o ymrwymiad hirsefydledig Llywodraeth Cymru i wella ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru a herio agweddau yn y maes hwn.

Ym mis Medi 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Dyw hyn ddim yn iawn #RheolaethYwHyn', sef cam cyntaf yr ymgyrch, gan dargedu'r negeseuon yn benodol at brofiadau pobl ifanc rhwng 16 a 21 oed. Cafodd gweithgareddau'r ymgyrch eu targedu'n bennaf at fyfyrwyr prifysgol yn ystod Wythnos y Glas ledled Cymru.

Lansiodd ail gam yr ymgyrch i bobl ifanc ym mis Hydref 2019 ac roedd wedi'i anelu'n benodol at bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed a'r rheini sy'n agos atynt.

Roedd ymgysylltu â phobl ifanc a chael cyfarwyddyd ganddynt yn hanfodol er mwyn datblygu'r ymgyrch, a gwnaed hynny gyda chymorth grŵp o bobl ifanc o Goleg y Cymoedd. Datblygwyd clip byr i lansio'r ymgyrch gyda phobl ifanc yn sôn am eu profiadau ac yn annog pobl i ofyn am gymorth.

Gan dargedu llwyfannau'r cyfryngau a ddefnyddir fwyaf gan bobl ifanc, dangoswyd hysbysebion ar Facebook, Instagram a Spotify. Edrychwyd ar hysbysebion Facebook yr ymgyrch fwy na 2.4 miliwn o weithiau ac edrychwyd ar dudalennau'r wefan 19,960 o weithiau yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

Mae Dyw hyn ddim yn iawn #RheolaethYwHyn hefyd yn targedu rhieni a'r rheini sy'n agos at bobl ifanc er mwyn ceisio ymdrin â rheolaeth drwy orfodaeth – gan gynnwys sut i adnabod yr arwyddion a sut i gael cyngor gan linell gymorth Byw Heb Ofn, drwy sgwrs fyw ar y we. Ymgysylltwyd â rhwydweithiau addysg ledled Cymru ac anogwyd ysgolion a cholegau i gymryd rhan yn yr ymgyrch ac i rannu deunyddiau â myfyrwyr.

Er mwyn cael gwybod mwy ac i lawrlwytho deunyddiau'r ymgyrch, ewch i:

https://llyw.cymru/dyw-hyn-ddim-yn-iawn

# Adran wyth: Atebolrwydd

**Herio Llywodraeth Cymru**

Mae Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru yn atebol i blant a phobl ifanc am hyrwyddo'r Confensiwn a'r ddyletswydd sylw dyledus o dan adran pump o'r Mesur.

Gall plant a phobl ifanc herio Llywodraeth Cymru os byddant yn teimlo nad yw'r ddyletswydd sylw dyledus yn cael ei chyflawni neu os bydd ganddynt bryderon am hawliau plant. Mae'r her hon yn cynnwys eu hawl i wneud cwyn yn erbyn Gweinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru.

Mae CHP 2014 yn rhoi cyfarwyddyd i swyddogion Llywodraeth Cymru gydnabod y gall fod angen cymorth ar blant a phobl ifanc i wneud cwyn ffurfiol. Rhaid i swyddogion, os na fyddant eisoes yn cymryd camau, roi gwybod iddynt am y sefydliadau a all helpu plant a phobl ifanc i gyflwyno eu cwyn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys helpu plant a phobl ifanc i ddeall y broses gwyno ac esbonio'r broses mewn iaith briodol sy'n addas i blant.

Ni fu unrhyw gwynion yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod yr adroddiad nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu fersiwn o'r broses gwyno sy'n addas i blant.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Rôl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ei gweithredoedd. Mae'r Pwyllgor yn archwilio deddfwriaeth ac yn craffu ar gyllideb, polisïau a threfniadau cyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor PPIA yn ystyried polisïau sy'n ymwneud ag addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei ymchwiliad manwl i Hawliau Plant yng Nghymru[20] ym mis Awst 2020.

[20] Hawliau Plant yng Nghymru

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2020[21]. Caiff argymhellion y Pwyllgor eu hystyried yn adran camau nesaf yr adroddiad ar gydymffurfiaeth.

**Comisiynydd Plant Cymru (CPC)**

Sefydlwyd CPC yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000. Diwygiodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("Deddf 2001") Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000") drwy ehangu cwmpas swyddogaethau'r Comisiynydd a chreu swyddogaethau newydd i'r Comisiynydd.

Caiff y Comisiynydd a'i swyddfa eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, er bod gan y Comisiynydd Plant statws unigol corfforaethol a'i fod yn sefydliad hawliau dynol annibynnol. Mae'r Comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru er mwyn iddi arfer ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys ei phwerau i adolygu gweithgareddau Llywodraeth Cymru.

Un o'r prif ddulliau a ddefnyddir gan y Comisiynydd Plant i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ei gweithredoedd yw'r adroddiad blynyddol a gyhoeddir ganddi, sy'n nodi cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r argymhellion bob blwyddyn[22].

Mae'r Comisiynydd Plant a'i swyddfa hefyd yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth o CCUHP a hawliau plant ymhlith plant a phobl ifanc.

**Craffu gan y Senedd**

Caiff yr adroddiad hwn ar gydymffurfiaeth ei gyflwyno ger bron y Senedd yn unol ag adran pedwar o'r Mesur.

**Y Senedd Ieuenctid**

Ym mis Tachwedd 2018, etholwyd 60 o bobl ifanc fel aelodau Senedd Ieuenctid Cymru. Mae Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn tynnu sylw at faterion a godwyd gan blant a phobl ifanc ac yn eu trafod ar lefel genedlaethol gan weithio'n

[21] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru
[22] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019-2020

uniongyrchol â'r Senedd a chyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Cymru i godi lleisiau plant a phobl ifanc.

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)**

Rôl y Comisiwn yng Nghymru yw hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol. Y Comisiwn yw'r corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am orfodi Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn 2018, comisiynodd y Comisiwn[23] waith ymchwil ar effaith y Mesur. Roedd y gwaith ymchwil yn anelu at asesu effaith y Mesur a sut (os o gwbl) y mae wedi gwneud gwahaniaeth i hawliau plant yng Nghymru.

**UNICEF**

Mae UNICEF yn gweithio mewn dros 190 o wledydd a thiriogaethau i achub bywydau plant, amddiffyn eu hawliau a'u helpu i gyflawni eu potensial, o blentyndod cynnar hyd at y glasoed. Mae UNICEF yn cyfuno ei brofiad, ei waith ymchwil a'i waith dadansoddi i ddarparu gwaith ymchwil ac adroddiadau, gan weithio gyda Llywodraethau er mwyn ysgogi newid. Mae UNICEF UK yn aelod o'r GCHP sy'n cynghori Llywodraeth Cymru.

**Sylwadau terfynol CCUHP**

Ar 12 Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei adroddiad Sylwadau Terfynol ar gynnydd y Deyrnas Unedig wrth weithredu hawliau plant ers 2008[24]. Gwnaeth yr adroddiad hwn nifer o argymhellion i Lywodraeth y DU fel y parti gwladwriaethol.

Darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad cynnydd blynyddol, drwy ddatganiad Gweinidogol yn 2017 a 2018 a 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu diweddariad cynhwysfawr ar gynnydd yn erbyn argymhellion Sylwadau Terfynol 2016 yn ystod gwanwyn 2021.

[23] Effaith Integreiddio Cyfreithiol Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru
[24] Sylwadau Terfynol ar bumed adroddiad cyfnodol Terynas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

## Adran naw: Y camau nesaf

### Y camau nesaf o'r adroddiad ar gydymffurfiaeth ar gyfer Mehefin 2015 – Ionawr 2018

Roedd yr adroddiad diwethaf ar gydymffurfiaeth yn cynnwys pum cam nesaf, a nodir cynnydd yn eu herbyn isod.

| Y camau nesaf | Cynnydd |
|---|---|
| Ystyried ac ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cynllun Hawliau Plant, a chynnig Cynllun diwygiedig a gyflwynir i gael cymeradwyaeth y Cynulliad. | Mae Cynllun drafft 2021 ar gael ar hyn o bryd ar ffurf ymgynghoriad cyhoeddus tan 26 Mawrth 2021[25]. Gohiriwyd yr ymgynghoriad hwn ar gais y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, tan ar ôl i adroddiad y Pwyllgor Hawliau Plant yng Nghymru gael ei gyhoeddi ym mis Awst 2020. [26] O ganlyniad, llwyddodd y CHP diwygiedig i ystyried argymhellion yr adroddiad hwn. |
| Bwrw ymlaen â gwaith i ymgorffori'r AEHP mewn asesiad effaith integredig, gan roi ystyriaeth fanwl i'r argymhellion o werthusiad 2015 o AEHPau a brîff 2017 UNICEF fel rhan o'r broses hon. | Cafodd yr AEHP ei gynnwys yn yr AEI. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau arfaethedig y gwaith ymchwil ar atgyfnerthu a datblygu ymchwil hawliau dynol gan Brifysgol Abertawe ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad ar y CHP diwygiedig. |
| Ystyried a oes angen darparu rhagor o gyllid ar gyfer hyfforddiant penodol i'r sector ar hawliau plant, pan ddaw'r contract presennol i ddatblygu a darparu'r hyfforddiant hwn i ben. | Cwblhawyd y contract i ddarparu hyfforddiant i sefydliadau allanol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl hyfforddiant allanol neu hyfforddiant penodol i'r sector fel rhan o'i strategaeth ddiwygiedig ar gyfer gwella ymwybyddiaeth. |
| Ymwybyddiaeth o hawliau plant: ystyried canfyddiadau Arolwg Omnibws Plant | Ystyriodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau Arolwg Omnibws Plant Beaufort fel rhan o weithgareddau hawliau plant pan gyhoeddwyd y data am y tro cyntaf. Dangosodd canlyniadau'r arolwg yn 2017 fod 58% o |

25 Cynllun Hawliau Plant Drafft 2021
26 Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Hawliau Plant yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Beaufort, a'r hyn a ddywed wrthym am ein strategaeth i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn y dyfodol; sut y gallwn weithio ag eraill i gynyddu ymwybyddiaeth; ac a oes angen rhagor o ymchwil i ddeall y berthynas rhwng ymwybyddiaeth o hawliau plant a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. | blant rhwng 7 ac 18 oed yn ymwybodol bod gan blant hawliau penodol, ond ymatebodd 78% ohonynt nad oeddent wedi clywed am CCUHP.<br><br>Datblygwyd strategaeth newydd ar gyfer gwella ymwybyddiaeth gan ganolbwyntio ar sut y gall gwella ymwybyddiaeth o CCUHP ymhlith plant a phobl ifanc fod yn gysylltiedig â gwell canlyniadau. |
| Cyfranogiad: adolygu ein strategaeth i gefnogi a thynnu sylw at bwysigrwydd cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. | Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i Plant yng Nghymru i hyrwyddo, annog a helpu i hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun CCUHP. Mae hyn yn cynnwys eu hawl i gyfranogi, i'w barn gael ei chlywed, ac i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae Plant yng Nghymru yn cynrychioli llais y sector plant ar amrywiaeth eang o weithgorau a byrddau sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth gyfranogi ddiwygiedig yn ystod y flwyddyn. |

**Y Camau Nesaf – 2021 ymlaen**

1. Rhoi argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg[27] ar waith. Gellir gweld ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yma [Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru.]
2. Cyhoeddi Cynllun Hawliau Plant newydd[28] ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, a'r holl drefniadau a restrir yn y CHP, erbyn hydref 2021.

[27] Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Hawliau Plant yng Nghymru
[28] Ymgynghoriad ar Gynllun Hawliau Plant Drafft 2021

## Rhestr termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| AEHP | Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant |
| AEI | Asesiad Effaith Integredig |
| AHC | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth |
| BCI | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CDB | Cartref Diogel i Blant |
| CHP | Cynllun Hawliau Plant |
| CiW | Plant yng Nghymru |
| CPC | Comisiynydd Plant Cymru |
| GCHP | Y Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant |
| GDD – Mynediad | Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad |
| Protocolau Dewisol | Mae CCUHP yn cynnwys tri Phrotocol Dewisol<br>• y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant<br>• y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar dynnu plant i mewn i wrthdaro arfog<br>• y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar weithdrefn gyfathrebu |
| Pwyllgor PPIA | Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg |
| STI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc |
| VCYPS | Y ffrwd waith plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a diogelu |
| Y Mesur | Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 |

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@senedd.cymru

26 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Diolch am lythyr y Pwyllgor, dyddiedig 19 Chwefror, ynghylch pryderon Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector am y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a gweithredu Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn fwy cyffredinol.

Rwy'n ymwybodol dros ben o'r heriau y mae ein dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig hwn, ac mae'r rhain wedi ei gwneud yn fwy amlwg nag erioed mor bwysig yw sicrhau bod y system gymorth i blant a phobl ifanc ag ADY mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol. Dyma un o'r prif resymau pam rwyf wedi gofalu bod diwygio'r system ADY wedi parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y pandemig.

Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r Cod ADY. Gallaf gadarnhau bod safbwyntiau'r Cynghrair a safbwyntiau ymatebwyr eraill, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft, wedi'u hystyried yn ofalus wrth baratoi'r Cod ADY.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor bod y newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Cod ADY yn adlewyrchu pryderon Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (fel yr amlinellir yn eu llythyr) mewn perthynas â dysgwyr ôl-16 ag ADY, a'r gofynion o ran sgiliau Cydlynwyr ADY. Rwyf ar ddeall bod fy swyddogion wrthi'n trafod pryderon ynghylch addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a hawl i gael CDU gyda'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, er mwyn egluro'r sefyllfa y mae pobl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


wedi'i deall mewn ffyrdd gwahanol, a'r disgwyl yw y bydd yna ganlyniad boddhaol yn fuan.

Bydd y canllawiau arfer da a gaiff eu datblygu i gyd-fynd â'r Cod ADY yn rhoi sylw i'r materion eraill a godwyd gan Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector, sy'n cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor am yrfaoedd, a llwybrau ADY ôl-16. Bydd y canllawiau yn helpu i ofalu bod y system ADY newydd yn cael ei gweithredu fel y'i bwriadwyd, a byddwn yn cydweithio'n agos â'r Gynghrair ac â rhanddeiliaid perthnasol eraill wrth ddatblygu'r canllawiau hyn. Os bydd angen unrhyw fanylion pellach arnoch o ran y pryderon a godwyd yn y llythyr, bydd fy swyddogion yn gallu rhoi esboniad a sicrwydd pellach ichi pan fyddwch yn cwrdd â nhw am gyfarfod briffio technegol cyn trafodaeth y cyfarfod llawn ddiwedd Mawrth.

Yn olaf, gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y camau i ddiwygio'r system ADY. Mae hyn wedi'i gynnwys yn swydd-ddisgrifiadau Arweinwyr Trawsnewid y System ADY a fydd yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau gweithredu yn ystod y cyfnod pontio. Yn ogystal, mae yna gynlluniau ar waith ac ymrwymiad i gynnal adolygiad ôl-weithredol o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 bum mlynedd ar ôl ei chychwyn. Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae Deddf 2018 wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ag ADY yng Nghymru.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y materion a godwyd gan Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education